# Partneriaeth Awyr Agored
# CYLCHLYTHYR

PARTNERIAETH AWYR AGORED
Profiad • Llwyddo • Mwynhau • Gyda'n Gilydd
Experience • Enjoy • Achieve • Together
OUTDOOR PARTNERSHIP

## Ffocws ar Glwb - Clwb Mynydda Cymru

Sefydlwyd y clwb dros 40 mlynedd yn ôl, gyda'r nod o hyrwyddo a galluogi mynydda drwy gyfrwng y Gymraeg, i unrhyw un sy'n hoff o fynydda mewn cwmni hwyliog, diogel a chefnogol.

Wedi blynyddoedd o lwyddiant, cannoedd o aelodau a miloedd o deithiau mynydd gwych, ynghyd â thripiau anturus a mwy hamddenol, yn y DU a thramor, roedd y clwb wedi dechrau poeni am ddyfodol y clwb yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fel sy'n digwydd gyda llawer o glybiau, wrth ystyried y dyfodol, roeddent yn cydnabod yr angen i ddenu aelodau newydd a diogelu hirhoedledd y clwb.

Daeth y pwyllgor at ei gilydd, ac ochr yn ochr ag awgrymiadau gan yr aelodau, cyflwynwyd rhai newidiadau yn narpariaeth y clwb; amrywiaeth ehangach o deithiau cerdded (pellter/difrifoldeb), cyflwyno disgrifiadau wedi'u graddio o'r teithiau, sesiynau blasu wedi'u hysbysebu'n dda i'r cyhoedd, a datblygu Ap clwb newydd.

Yn sgil hyn, mae'r clwb wedi llwyddo i ennill llawer o aelodau newydd sydd wedi anadlu bywyd newydd i'r clwb. Roedd hyn yn cynnwys nifer o aelodau iau ac aelodau sydd eisiau dysgu mwy a datblygu sgiliau i allu gwirfoddoli i arwain teithiau y clwb.

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored wedi helpu'r clwb gyda'r dasg hon. Drwy gyd-weithio gyda'r clwb, bu'n bosib adnabod nifer o aelodau oedd digon profiadol, a chyda'r brwdfrydedd i ddechrau ar y cymhwyster Arweinydd Mynydd. Aethom ati i weithio gyda'r clwb i drefnu cwrs iaith Gymraeg yn arbennig ar gyfer yr aelodau yma. Gyda'r unigolion hyn yn dysgu sgiliau newydd, bydd y clwb i gyd yn elwa o'r wybodaeth, a'r gobaith ydi byddant yn mynd ymlaen i fod yn arweinwyr teithiau rheolaidd i'r clwb ac y bydd hyn yn sicrhau hirhoedledd y clwb am flynyddoedd lawer i ddod. Bydd hyn yn sicrhau bod cenhedlaeth arall o fynyddwyr lleol, Cymraeg eu hiaith yn gallu mwynhau'r mynyddoedd yn ddiogel.

www.clwbmynyddacymru.com



Clwb Mynydda Cymru



# Newyddion o'r Ardaloedd

## Gwent

Bu'n haf llawn antur yn rhanbarth Gwent. Cawsom lawer o wahanol gyfleoedd i bobl ifanc i gael mynediad i'r awyr agored ar gyfer eu llesiant ac i ddatblygu eu sgiliau dros fisoedd yr haf.

Buom yn gweithio gydag AMSER, gydag Anturiaethau i Ofalwyr Ifanc drwy gydol misoedd yr haf, gan weithio gydag Anturiaethau Caerffili i drefnu diwrnodau antur ar gyfer gofalwyr ifanc ar draws y rhanbarth. Cawsom deithiau syrffio, cerdded ceunentydd a diwrnodau ogofa, gyda llawer mwy i ddod. Os ydych chi'n gweithio gyda gofalwyr ifanc yn ardal Gwent, cysylltwch gyda'r Swyddog Datblygu Gweithgareddau Awyr Agored i weld sut gallwn eich cefnogi, os gwelwch yn dda.





Uchafbwynt yr haf oedd peilot llwyddiannus ein rhaglen Llwybrau i Hyffoddiant. Diolch i gyllid gan Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm, Y Bartneriaeth Awyr Agored, a thrwy weithio gyda Crosfield Outdoors a Manzoku Climbing and Mountaineering, rydym wedi darparu cwrs  hyfforddi haen eilaidd i godi sgiliau y genhedlaeth nesaf o hyfforddwyr.

Rhoddodd y cwrs ystod o ddiwrnodau sgiliau awyr agored o safon i'r cyfranogwyr, yn cynnwys ogofa, canŵio, dringo a thaith dros nos, a hyn oll tra'n cwblhau'r cymwysterau National Navigation Award Scheme, yr Indoor Climbing Assistant ac Outdoor First Aid. Dywedodd riant un o'r rhai fu'n cymryd rhan, "Roeddwn am i chi wybod bod **** newydd gofrestru ar gyfer cwrs 3 mis gydag Ymddiriedolaeth Y Tywysog y bore 'ma. Roedd rhaid iddi ddal y trên i **** (ar ei phen ei hun) a'u cyfarfod (ar ei phen ei hun!). Cyn eich cwrs, ni fyddai erioed wedi gwneud hyn, ac mae'n swnio'n beth bach ond gwn fod yr annibyniaeth mae'n ei fagu yn wych ac mae eich cwrs wedi rhoi'r dewrder iddi i wneud hynny, felly a fyddech cystal â datgan fy niolch i'ch hyfforddwyr i gyd, os gwelwch yn dda."

Mae ail gyfres y cwrs hwn yn cychwyn yng nghanol mis Medi. Gellir gwneud atgyfeiriadau trwy gysylltu gyda'r Swyddog Datblygu Gweithgareddau Awyr Agored.

Yn olaf, diolch i gyllid gan gronfa gymunedol Uwch Siryf Gwent, roeddem yn gallu parhau i weithio gydag Anturiaethau Caerffili i gynnal rhaglen therapi antur i bobl ifanc yng Ngwent. Roedd yr wythnos yn cynnwys beicio mynydd E-MTB, padlfyrddio, ogofa, sgiliau byw'n y gwyllt, a cherdded ceunentydd, gan orffen gyda thaith i'r traeth am ddipyn o syrffio a hufen iâ....Hyfryd!



# Partneriaeth Awyr Agored
# CYLCHLYTHYR

## Canol De Cymru

Mae wedi bod yn haf epig o syrffio yn Nhraeth Coney, Pen-y-bont, mewn partneriaeth gyda Karma Seas, a'u nod i helpu plant ac oedolion o bob gallu, o gefndiroedd amrywiol, i gael mynediad i hwyl a buddion therapiwtig syrffio. Ewch i weld Instagram Karma Seas i weld y lluniau gwych. Roedd grwpiau o Rewild Replay, APCymru a'r Single Mums' Wellbeing Group yn bresennol. Cynigiodd y rhaglen y cyfle i deuluoedd i ymgysylltu gyda'i gilydd mewn chwaraeon ac i alluogi'r rhai hynny ag ASD i ymgysylltu gyda'r môr, yn ogystal â ffocysu ar ddiogelwch dŵr a chyfarfod yr achubwyr bywyd RNLI! Cymaint o hwyl, tra hefyd yn delio â'r mater fod y rhai hynny ag ASD mewn llawer mwy o berygl o ganlyniad i ddigwyddiadau cysylltiedig â dŵr.

Yn Rhondda Cynon Taf, mae dau ddarparwr beicio cynhwysol sy'n cynnig beicio hwyliog a chyfeillgar i bawb yn y parc. Maent wedi ei chael yn anodd i ehangu eu hymgysylltiad yn y gorffennol, felly gwnaethom bartneru i gynnig haf o logi beiciau cynhwysol yn RHAD AC AM DDIM, sef 8 diwrnod ble gall teuluoedd, unigolion a grwpiau gyrraedd, mynd ar y beic, cymryd picnic a mwynhau bod allan yn yr awyr agored. Yn anffodus, bu'n rhaid canslo rhai o'r sesiynau hyn, ond mae'n iawn oherwydd maent wedi cynnig defnyddio'r gofodau hyn i grwpiau fynychu yn y dyfodol. Mae'n brawf o pa mor anhygoel yw'r bobl hyn, a faint o feddwl sydd ganddynt o'r hyn maent yn ei wneud. Mae dau leoliad Cwm Cycling yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr ac yn weithgaredd fforddiadwy, hwyliog a chynhwysol i bawb.

## Plymouth

TMae'r Bartneriaeth Awyr Agored wedi cefnogi canolfan awyr agored yma yn Plymouth i sicrhau cyllid gan Children in Need y BBC i helpu pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig i gael profiad o'r awyr agored a phopeth sydd ganddo i'w gynnig, ac ardal Plymouth Sound yn arbennig.

Cyflawnwyd hyn drwy bartneriaeth rhwng y Bartneriaeth Awyr Agored, The Mount Batten Centre, a Connecting Youth CIC. Canlyniad hyn oedd ein bod wedi galluogi Connecting Youth i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau wedi eu trefnu a'u harwain gan y Mount Batten Centre, ac hefyd mynd ar gwrs ar long 'tall ship' diolch i gais grant dderbyniodd y Mount Batten Centre gyda chymorth i'w lunio gan y Bartneriaeth Awyr Agored.

## Rhanbarth Bae Abertawe

Yn ystod wythnos olaf gwyliau'r haf, dechreuom ar ein Rhaglen Antur i Ofalwyr Ifanc yma yn Rhanbarth Bae Abertawe. Aethom draw am Wild Lakes Wales gyda 12 gofalwr ifanc o'r tîm Action for Children am sesiwn hwylfyrddio epig. Cafodd y bobl ifanc amser gwych, gyda rhai'n gallu aros ar eu sefyll am gryn amser, ac roedd llawer o syrthio i mewn i'r dŵr hefyd!

Mae gennym lawer mwy ar y gweill dros y misoedd nesaf, yn cynnwys padlfyrddio, sgiliau byw'n y gwyllt, sesiynau ar y themâu Noson Calan Gaeaf a'r Nadolig, ac rydym yn edrych ymlaen i weithio gyda darparwyr ardderchog yn cynnwys Windswept, Llandysul Paddlers, South Wales Adventure Company, a llawer mwy, yn ogystal â'r Gwasanaethau Gofalwyr Ifanc, Action for Children, YMCA a Credu, sydd i gyd yn wych.

# Newyddion o'r Ardaloedd

## Gwynedd

Dechreuwn ein hanesion y tro hwn gyda'r Eisteddfod Genedlethol eleni. Fel rhan o ddarpariaeth chwaraeon Byw'n Iach ar faes Yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, bu cystadleuaeth cyfeiriannu yn digwydd i blant. Roedd cwrs gwahanol bob dydd, a phawb oedd yn ei gwblhau yn gywir yn mynd i raffl ddyddiol. Cawsom dros 130 o gystadleuwyr yn cymryd rhan drwy'r wythnos, gyda nifer ohonynt yn newydd i'r gamp. Llwyddodd y rhan helaeth i gwblhau y cwrs bob dydd.

Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr, sydd bellach wedi derbyn eu gwobrau yn y post. Diolch i Ar y Trywydd am eu gwaith i greu mapiau o'r maes ac i staff uned partneriaethau Byw'n Iach am gynorthwyo i arwain y weithgaredd yn ystod yr wythnos.

Wedyn roedd rhaglen hwylio'r haf oedd yn ei hanterth yng Nghlwb Hwylio Dyfi. Dyma ddau adroddiad o ddau o'r diwrnodau ym mis Awst i roi blas i chi ac i ddangos cynnydd yr unigolion. Mae'n deg dweud nad oedd yr amodau tywydd y gorau ar gyfer dysgu hwylio, ond bob clôd i'r rhai ifanc am eu hagwedd bositif a'u dyfalbarhad.

Bu Sesiwn 3 ar ddydd Sadwrn, 5ed Awst a'r tywydd yn well nag y bu. Ar gyfer y sesiwn hon roeddem yn gallu gwneud llawer mwy ar y dŵr. Wedi rhai ymarferion adolygu ar y tir sych, aeth y rhan fwyaf o'r bore yn ymarfer 'beam reaches' (o ddau 'topper' wedi eu rheoli'n unigol), llywio, a throi drosodd, gyda chynnydd i'w weld. Hwn oedd y tro cyntaf i'r rhan fwyaf ohonynt fod mewn cwch o dan eu rheolaeth eu hunain. Gwnaeth yr wyth morwr yn dda iawn. Uchafbwynt y sesiwn yn sicr oedd presenoldeb Jasper, morwr lleol 14 oed, oedd newydd ddychwelyd o'r bencampwriaeth World Topper Championships yn Cork be daeth yn 13eg allan o 300. Roedd y parch oedd ganddynt ato fel model rôl yn amlwg ac roedd yn gallu dangos a chyfarwyddo'n fedrus.

Bu Sesiwn 4 ar ddydd Sadwrn, 12fed Awst. Roedd yn ddiwrnod arall gwyllt a gwlyb a pheth glaw niwlog ar adegau. Roedd hwn yn fore i wneud y mwyaf o'r amser ar y dŵr. Cafodd pum cwch a phum morwr eu halio draw i ochr arall yr aber, i Afon Leri, a lleoli yng nghysgod cymharol y gwyntoedd o'r de orllewin. Dangosodd y pum morwr gynnydd a dycnwch ardderchog yn eu llywio a chytuno eu bod wedi gwneud camau mawr gyda'u sgiliau hwylio i rai nad oedd wedi hwylio o'r blaen. Roeddent yn gallu hwylio ar 'beam reaches' rhwng dau fwi, yn gallu adfer o lan gysgodol ac unioni cwch oedd wedi troi drosodd. Roedd Jasper, gyda chefnogaeth ei dad, yno i helpu, a hynny wedi iddo orffen yn 5ed allan o 130 yng nghystadleuaeth y Topper Nationals yr wythnos flaenorol.

## Rhanbarth Bae Abertawe





# Partneriaeth Awyr Agored
# CYLCHLYTHYR

## Swydd Aeron

Mae Partneriaeth Awyr Agored Swydd Aeron wedi bod yn brysur iawn dros fisoedd yr haf. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gyda nifer o sefydliadau yn Swydd Aeron i gyllido, cefnogi a threfnu ystod o gyfleoedd iechyd a llesiant, datblygu sgiliau a diogelwch dŵr.

Darparodd rhaglen yr haf 'Splash', gan y Bartneriaeth Awyr Agored, raglen ddwywaith yr wythnos ar draeth Barassie Beach yn Troon yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst. Bu deg diwrnod o ddiogelwch dŵr, padlo SUP, hedfan barcud, dringo, chwilota traeth ('beachcombing'), sesiynau natur ac amgylcheddol, a sesiynau beicio gyda rampiau a neidiau. Roedd yn rhaglen gymunedol aml-chwaraeon oedd yn ymgorffori thema sgyrsiau a gemau rhyngweithiol "Respect the Water" yr RNLI. Roedd y grwpiau a fynychodd yn cynnwys clybiau ieuenctid Troon a Prestwick, Scouts, Guides, Brownies, Girls' Brigade, Barnardo's, a grwpiau East Ayrshire Family Link.




Cymerodd 233 o bobl ifanc ran, yn cynnwys diwrnod i'r teulu gyda theuluoedd o Troon ac Wcrain. Hoffem ddiolch i'n cyd-ddarparwyr, Adventure Carrick, Above Adventure, Dolphin House, Kite Surf Scotland ac Underskye. Diolch hefyd am gyllid gan Troon Water Sports Hub, Morrison Foundation, Darroch Bequest, a Chyngor De Swydd Aeron.
Buom hefyd yn gweithio efo Gillian's Walks ar brosiect cerdded a throchi, gan gynnig teithiau cerdded tywys therapi antur ar draws Swydd Aeron a theithiau cerdded a throchi dŵr-oer cyfunol yn y llynnoedd mynydd ac ar y traethau. Cawsom 6 sesiwn taith gerdded tywys gyda Gillian's Walks, a 4 sesiwn gerdded a throchi dŵr agored gydag Elaine a Gillian's Walks. Dyma flas o un o'r diwrnodau 'Hike and Dip' yma.

"Gwyddoch y bydd yn ddiwrnod da pan mae'r dreif i lawr i'r maes parcio yn gwneud i chi ddweud "WOW!" wrthoch chi eich hun. Roedd y wefr oedd pawb yn ei deimlo o ddigwyddiad 'Hike and Dip' y diwrnod yn lledaenu drwy bawb. Hoffem ddiolch i bawb fu'n cymryd rhan am fod mor hwyliog ac am ddod â'u holl egni. Roedd y tywydd yn berffaith gydag, o bosib, yr olygfa fwyaf clir rydym erioed wedi ei weld o Ailsa Craig ac Arran. Cawson daith gerdded heddychlon ar hyd ein harfordir prydferth tuag at gastell Culzean Castle, sy'n eistedd ar ben y clogwyn ac yng ngoleuni'r haul ar hyd y daith. Wedi stopio am ymweliad pwysig i'r "lle chwech" yn y ganolfan ymwelwyr, yn ôl wedyn ar hyd llwybrau cyfrinachol gwyllt drwy'r coed.

"Ymlaen wedyn i'r dŵr agored gydag Elaine i'n harwain ni am drochiad gwych. Roedd y dŵr yn 19°C digon pleserus (go iawn!!). Pe baech wedi bod ar y traeth byddech wedi clywed llawer o chwerthin a chefnogaeth gennym ni wrth i aelodau o'r grŵp geisio deifio fel môr-forwynion neu sefyll ar eu dwylo yn y dŵr.

# Newyddion o'r Ardaloedd

## Arfordir Cumbria

Ariannwyd y prosiect Llwybrau i Waith (P2E) drwy gronfa Copeland Community, a bu'n rhedeg o Fedi 2021 i Fedi 2023.

Dros y cyfnod hwn, bu dwy garfan o gyfranogwyr yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau awyr agored dros 16 wythnos. Nid oedd yr un o'r cyfranogwyr mewn cyflogaeth, addysg nac hyfforddiant, ac nid oedd yr un ohonynt wedi ystyried chwilio am waith yn y diwydiant awyr agored o'r blaen, cyn dod ar draws y cwrs hwn.

Roedd y gweithgareddau yn amrywio o gerdded mynydd i badlfyrddio SUP, canŵio a nofio gwyllt. Darganfyddodd y cyfranogwyr i gyd fod bod y tu allan a chymryd rhan mewn gweithgaredd grŵp wedi bod yn fuddiol iawn i'w llesiant.

Roedd dangos yr offer diogelwch ar gyfer y gweithareddau dŵr a'r dringo, ac esbonio iddynt sut roedd hyn yn gwneud y weithgaredd yn ddiogel, yn galluogi'r cyfranogwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau roeddent yn teimlo na allent gymryd rhan ynddynt cyn hynny, ac yn rhan o'r cwrs ei hun. Yn dilyn y cwrs, llwyddodd dau o'r cyfranogwyr i gael gwaith gan ddefnyddio rhan o'u hamser ar y cwrs P2E fel rhan o'u ceisiadau ar gyfer y swyddi hynny. Dechreuodd eraill ar waith gwirfoddol a darganfod fod y cwrs wedi bod o fudd i'w hiechyd meddyliol a chorfforol.

Diolch i gronfa'r Copeland Community Foundation a'r Whitehaven Harbour Project am gyfrannu at lwyddiant y prosiect. Mae mwy o wybodaeth am ein rhaglen Llwybrau i Waith ar gael ar ein gwefan.

## Swydd Aeron (parhau...)

"Roedd yn gymaint o hwyl ac, ar ddiwrnodau fel hyn, dydi Swydd Aeron ddim yn siomi."

Cawsom hefyd wersyll 5 diwrnod cynhwysedd ac arweinyddiaeth gyda North Ayrshire Active Schools, gyda rhaglen o badlo SUP, canŵio, cyfeiriannu, a rhwyfo yn ardal harbwr Irvine. Cawsom hefyd 5 sesiwn hwylio anabledd yn Prestwick Sailing Club, oedd yn rhaglen wythnosol gyda chyfarwyddyd gan hyfforddwyr o'r Prestwick Sailing Club ar gyfer trigolion anabl lleol, yn ogystal ag 8 sesiwn ddringo dan dô yn Above Adventure gyda'r Ayrshire Cancer Support Group gyda chyflwyniad i ddringo i bobl ifanc sy'n byw gyda materion canser yn y teulu a thrawma.

Yn olaf, cawsom sesiwn ddatblygu Cerdded Nordig. Roedd y rhaglen beilot hon yn ddiwrnod o gyflwyniad i'r dechneg Cerdded Nordig gyda Gillian yn y Kilmaurs Walking Festival. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach yn ystod yr hydref a'r gaeaf.

